

Zoom Zoom Zoom

Y mae Jonathan Copus yn myfyrio dros bleserau a maglau addoli rhithwir

Yn ystod y cloi mawr, dechreuodd Mrs. C a minnau fynychu'r eglwys ble'r oeddwn yn mynd iddi fel ordeiniad yn y chwedegau hwyr: Sant Ioan, Waterloo. Nid, wrth gwrs, drwy yrru dros 200 milltir – byddai hynny yn erbyn ysbryd rheolau'r Llywodraeth – ond fel un o'r hirsgwariau ar y cliniadur.

Y mae Cymundeb Rhithwir yn fendith brydferth ond yn greadur rhyfedd, nid heb ei broblemau. Gan adael sain pawb heb ei dawelu gellir dod o hyd i ddarnau yn yr Actau na's clywid o'r blaen megis 'Safodd Pedr yng nghanol y disgyblion a dweud' Oes rhywun wrth y drws, cariad?'



Cododd materion diwynyddol enfawr uwchben manion am angylion ar bwynt pin. Ydy effeithlonrwydd y Maddeuant yn cael ei effeithio gan nerth band llydan 4G? A beth - *O magnum mysterium!* – am Fendith wedi ei recordio o flaen llaw?

Wrth gwrs, yr unig gymunwyr oedd y Llywydd a phwy bynnag arall oedd yn ei chegin. Ond fe wnaethom i gyd ymuno yn yr atebion a chanu'r emynau gyda brwdfrydedd tawel. Unwaith cawsom ein hanfon i 'ystafelloedd dianc' – grwpiau bychan ble gallem roi marciau allan o ddeg i'r bregeth. Sori, trafod Beth a Olygodd I Ni. Dyna un peth y gallem gynnwys yn ein gwasanaethau 'byw' (yn enwedig y marciau allan o ddeg).

Fe wnaeth yr Addoliad Rhithwir danlinellu'r obsesiwn Anglicanaidd gydag ystumiau'r corff. 'Ga i eich gwahodd i sefyll am yr Efengyl?' ac fe symudodd rhai pobl synhwyrol nôl o'r lens, ond gellid disgrifio'r llond sgrîn o drowsusau â saws coch arnynt ac hyd yn oed sgert fer fel 'just about the right thighs' o'r ffilm *Carry On*.

Peidied i ni fwrw sen ar y seremoni: mae llawer o bobl yn credu ei fod yn osgeiddig ac yn llifo yn gynhwysydd ysbrydol gwerthfawr. Yn fy arddegau, gallwn fod dweud wrthyf yn gymwys pryd y dylai'r Is-ddiacon benlinio ac esgyn i'r Predela yn ystod Uwch Offeren y Pontiff wrth Orsedd gan Uwch Brelad. Ond pan symudon ni i Waterloo, gyda'r Ddinas Gardbwrdd a dyfai, roedd y gwahaniaeth rhwng Gostwng Cymhedrol ac un Dwfn fel pe bai yn colli ei arwyddocâd.

Mae hynny'n fy atgoffa o'r wraig Eingl-Gatholig a lusgodd ei gŵr i'r eglwys am ymddangosiad prin. Drwy'r gwasanaeth bu'n poeri cyfarwyddiadau ato: 'Eistedd! Cwyd! Plyga! Croesa dy hun!'

Wrth benlinio i weddio, sibryddodd tu ôl i'w dwylo: 'Ydy dy drowsus di ar agor?'

'N-na', atebodd y dyn yn ei ofn 'Dylen nhw fod?'